Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol

Cylchlythyr Canllawiau

Rheoli a Llywodraethu Ysgolion

Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: **42/2006**
Dyddiad Cyhoeddi: **23 Hydref 2006**

Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Teitl y ddogfen: Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol.

Cynulleidfa: Cyrff Llywodraethu a phenaethiaid pob ysgol a gynhelir yng Nghymru; Cyfarwyddwyr Addysg awdurdodau addysg lleol yng Nghymru; undebau athrawon ac undebau eraill; Y Ddraig Ffynci; Y Comisiynydd Plant; sefydliadau addysg cenedlaethol a lleol perthnasol yng Nghymru; a sefydliadau a phartneriaethau plant a phobl ifanc cenedlaethol a lleol perthnasol.

Trosolwg: Mae'r ddogfen hon yn egluro'r gofynion rheoliadol ar gyfer cynghorau ysgol i gyrff llywodraethu, penaethiaid a staff eraill mewn ysgolion; mae'n rhoi canllawiau ar sefydlu a gweithredu cynghorau ysgol; a disgwyliadau ysgolion pan nad oes unrhyw ofyniad statudol ar gyfer cyngor ysgol.

Camau i'w cymryd: Bod cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir yn ystyried y canllawiau.

Gwybodaeth bellach: Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:
Rhif ffôn: 029 2082 6002
Ffacs: 029 2082 5823
e-bost: YALO.Mailbox@wales.gsi.gov.uk

Copïau pellach: Gellir cael copïau ychwanegol o'r canllawiau hyn gan:
Nick Johnson
Is-adran Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid ac Oedolion
Rhif ffôn: 029 2080 1034
e-bost: YALO.Mailbox@wales.gsi.gov.uk
neu gellir ysgrifennu i'r cyfeiriad isod

Cyfeiriad: Y Gangen Polisi, Cynhwysiant a Chyfranogiad
Yr Is-adran Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid ac Oedolion
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Dogfennau cysylltiedig: Dogfen Ymgynghori Cynnwys Disgyblion yn y Penderfyniadau sy'n Effeithio Arnynt a Sefydlu Cynghorau Ysgol mewn Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Hydref 2003.

G/315/06-07
ISBN 0 7504 8962 6
Hydref
CMK-22-07-155
Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2006

Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol

Cynnwys

Crynodeb

		Paragraff
Adran 1:	**Cyflwyniad**	
	Ystyried Barn Plant a Phobl Ifanc	1.1 - 1.2
	Manteision Cynghorau Ysgol	1.3 - 1.5
	Y Cyd-destun Cyfreithiol	1.6 - 1.7
Adran 2:	**Gofynion y Rheoliadau**	2.1
	Sefydlu Cyngor Ysgol	2.2 - 2.4
	Aelodaeth Cynghorau Ysgol ac Ethol Aelodau	2.5 - 2.10
	Rheoli Busnes Cynghorau Ysgol	2.11 - 2.17
	Materion i'w Hystyried gan Gynghorau Ysgol	2.18
	Materion na Ddylid eu Hystyried gan Gynghorau Ysgol	2.19
	Ymgysylltu â Disgyblion, y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu	2.20 - 2.24
	Adnoddau ar gyfer Cynghorau Ysgol	2.25
	Ysgolion Arbennig	2.26
	Disgybl-lywodraethwyr Cyswllt a Chysylltiadau rhwng Cyngor yr Ysgol a'r Corff Llywodraethu	2.27 - 2.35
Adran 3:	**Datblygiadau Pellach**	
	Gwefan Cynghorau Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru	
Atodiad 1:	**Gwe-gysylltiadau**	

Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol

Crynodeb

Daeth Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 i rym ar 31 Rhagfyr 2005[1]. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cynradd (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion babanod), ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig yng Nghymru sefydlu cyngor ysgolion o ddisgyblion cofrestredig a chynnal cyfarfod cyntaf y cyngor hwnnw erbyn **1 Tachwedd 2006**[2]. Mae Adran 176 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ystyried y canllawiau hyn wrth gydymffurfio â'r rheoliadau.

Yn benodol, mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth am:

- ddiben cynghorau ysgol;
- y gofynion deddfwriaethol ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir;
- awgrymiadau ar gyfer sefydlu cynghorau ysgol a'u rhedeg yn effeithiol;
- trefniadau ar gyfer disgybl-lywodraethwyr cyswllt i ysgolion uwchradd;
- disgwyliadau ysgolion lle nad oes unrhyw ofyniad statudol i sefydlu cyngor ysgol.

Yn ogystal â'r canllawiau statudol hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu gwefan cynghorau ysgol[3] sy'n cynnwys deunyddiau hyfforddi, canllawiau arferion ac astudiaethau achos enghreifftiol i roi cymorth parhaus ychwanegol i ysgolion a disgyblion.

[1] Rhoddir gwe-gyswllt at y rheoliadau yn Atodiad 1.

[2] Nid yw 1 Tachwedd 2006 yn ofyniad ar gyfer ysgolion arbennig.

[3] Rhoddir rhagor o wybodaeth yn adran 3.

ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Ystyried Barn Plant a Phobl Ifanc

1.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i weithredu confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn[4]. Mae erthygl 12.1 o'r confensiwn yn nodi y dylai llofnodwyr sicrhau bod plentyn sy'n gallu ffurfio ei safbwyntiau ef neu hi ei hun yn cael yr hawl i fynegi'r safbwyntiau hynny yn rhydd ym mhob mater sy'n effeithio ar y plentyn.

1.2 Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y dylai barn plant a phobl ifanc gael ei chlywed gan y rheini sy'n llunio polisïau ym mhob gwasanaeth cyhoeddus. Yn unol â hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ysgogi ac wedi cefnogi amrywiaeth o fentrau rhyng-gysylltiedig yn cynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi sefydlu Partneriaethau Plant, Partneriaethau Pobl Ifanc a Phartneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Ddraig Ffynci a fforymau ieuenctid wedi'u sefydlu ledled Cymru gyda'r nod o annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r gofynion statudol ar gyfer cynghorau ysgolion yn gam pellach yn y broses o sicrhau bod anghenion a dymuniadau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried wrth gyflwyno gwasanaethau drwy ddarparu ffordd o wrando a gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud. Mae cynghorau ysgol hefyd yn ffordd o roi cyfle i ddisgyblion ddatblygu sgiliau cyfranogi, er mwyn iddynt ddod yn ddinasyddion gweithredol o fewn cymuned yr ysgol a thu hwnt.

Manteision Cynghorau Ysgol

1.3 Sicrhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fod y broses o sefydlu cynghorau ysgol yn un o flaenoriaethau 'Y Wlad sy'n Dysgu'. Disgyblion yw'r rhanddeiliaid pwysicaf mewn ysgolion. Mae eu gyrfa yn yr ysgol yn cael effaith fawr ar eu dyfodol. Felly, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod gan ddisgyblion ffordd briodol o fynegi eu safbwyntiau a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau drwy gyngor ysgol. Mae llawer o ysgolion eisoes wedi sefydlu cynghorau ysgol yn wirfoddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu'r ymrwymiad hwnnw ond hoffai ei ddatblygu ymhellach. Mae'r rheoliadau a'r canllawiau hyn yn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar waith.

1.4 Gall cynghorau ysgol effeithiol:

- wneud ysgolion yn llefydd mwy cynhwysol a gwell drwy ddod â disgyblion, staff, yr uwch dîm rheoli a'r corff llywodraethu at ei gilydd;
- rhoi sianel gyfathrebu ffurfiol rhwng disgyblion, yr uwch dîm rheoli a'r corff llywodraethu;

[4] Y Wlad sy'n Dysgu II: Cyflawni'r Addewid tudalen 12.

- rhoi cyfle i'r uwch dîm rheoli a'r corff llywodraethu wyntyllu barn;
- cynnig ffordd drefnus a chynrychioliadol i'r disgyblion fynegi eu barn;
- helpu disgyblion i ddatblygu ac ymarfer sgiliau bywyd fel cyfathrebu a gwella eu dealltwriaeth o safbwyntiau a barn pobl eraill;
- rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb a rhannu problemau a'u datrys;
- helpu i wella cyd-ddealltwriaeth rhwng disgyblion, staff, uwch reolwyr a llywodraethwyr.

1.5 Mae cynghorau ysgol yn dangos ymrwymiad i ymgysylltu â disgyblion ac i werthfawrogi eu cyfraniad. Drwy wneud hynny gallant helpu i:

- wella ymddygiad a phresenoldeb;
- gwella safonau cyflawni wrth i ddisgyblion a staff gydweithio mewn proses gyfranogol;
- gwella rhai agweddau ar y cwricwlwm fel ABCh;
- rhoi tystiolaeth bod 'ystyriaeth yn cael ei rhoi i safbwyntiau disgyblion' yn unol â gofynion arolygu Estyn;
- hwyluso newidiadau yn amgylchedd a darpariaeth yr ysgol, ac o ran cydberthnasau â'r gymuned leol.

Y Cyd-destun Cyfreithiol

1.6 Gwnaethpwyd Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 (Offeryn Statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2005 Rhif 3200 (Cy.236)) o dan adrannau 19(2), 19(3), 20(2), 21(3), 210(7) a 214(1) o Ddeddf Addysg 2002 a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2005. Mae **Atodiad 1** o'r cylchlythyr hwn yn rhoi gwe-gysylltiadau at y Ddeddf, yr Offeryn Statudol, a Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau Cynghorau Ysgol, er mwyn darparu ar gyfer disgybl-lywodraethwyr cyswllt.

1.7 Mae'r canllawiau hyn wedi'u cyfeirio at gyrff llywodraethu ac wedi'u cyhoeddi o dan adran 176 a 19(7) o Ddeddf Addysg 2002. Mae adran 176 o Ddeddf Addysg 2002 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ynglŷn ag ymgynghori â disgyblion mewn perthynas â gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae adran 19(7) o Ddeddf 2002 yn nodi y dylai awdurdod addysg lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan y Cynulliad wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth a bennir gan reoliadau o dan yr adran honno. Yn unol â hynny, rhaid i gyrff llywodraethu, ac awdurdodau addysg lleol sy'n rhoi cyngor i gyrff llywodraethu, roi ystyriaeth i'r

canllawiau hyn. Mae adran 21(2) o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu arwain ysgol gyda'r nod o hyrwyddo safonau uchel o ran cyflawniad addysgol. Mae adran 21(3) yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio rheoliadau a allai gynnwys, ymhlith pethau eraill, nodi cylch gorchwyl ar gyfer cyrff llywodraethu a phennu swyddogaethau i gyrff llywodraethu a phenaethiaid.

ADRAN 2: GOFYNION Y RHEOLIADAU

2.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r rheoliadau yn unigol. Tynnir sylw at y gofynion gorfodol. Ceir awgrymiadau mewn blychau i ddangos pwyntiau ac i roi syniadau. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan cynghorau ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw pob un o'r rheoliadau yn gymwys i ysgolion arbennig cymunedol neu ysgolion arbennig sefydledig; esbonnir y gwahaniaethau ym mharagraff 2.28.

Sefydlu Cynghorau Ysgol

2.2 Mae'n **ofynnol** i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion babanod a gynhelir, sefydlu cyngor ysgol. **Gall** corff llywodraethu a phennaeth gytuno i sefydlu cyngor ysgol ar y cyd â chorff llywodraethu a phennaeth ysgol arall.

2.3 Er nad yw'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion meithrin neu ysgolion babanod a gynhelir sefydlu cynghorau ysgol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog y cyfryw ysgolion i drefnu ffyrdd llai ffurfiol, ond cydnabyddedig ac effeithiol, o geisio safbwyntiau disgyblion a rhoi llais iddynt o ran y ffordd y caiff eu hysgol ei rhedeg, fel 'amser cylch' ac ati.

> Efallai y bydd gan ysgolion ar safleoedd a rennir, neu ysgolion cyfagos, fuddiannau a rennir y gallai cyngor ysgol ar y cyd eu gwasanaethu'n dda. Yn y sefyllfaoedd hyn, efallai bod y penaethiaid a'r cyrff llywodraethu eisoes yn cydweithio'n agos a byddai cyngor ysgol ar y cyd yn ategu hynny ac yn ei ymestyn i'r disgyblion. Byddai cyngor ysgol ar y cyd yn hybu deialog a dealltwriaeth, yn codi buddiannau a rennir, a gallai hefyd ddatrys problemau a rennir. Nid yw sefydlu cyngor ar y cyd yn rhwystro ysgol rhag sefydlu ei gyngor ysgol ei hun hefyd.

2.4 Mae'n **rhaid** i'r pennaeth sicrhau bod cyngor yr ysgol yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith yn ystod y flwyddyn ysgol. Dylid cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol. **Rhaid** i gyfarfod cyntaf y cyngor fel y'i sefydlwyd o dan y rheoliadau gael ei gynnal erbyn 1 Tachwedd 2006[5].

> Awgrymir bod cyngor ysgol yn cyfarfod bob hanner tymor, oni bai bod rhesymau da pam nad yw hynny'n ymarferol. Bydd rhaglen reolaidd yn cynnal momentwm a diddordeb y disgyblion. Bydd cynnal cyfarfodydd bob hanner tymor yn ddigonol fwy na thebyg i ddelio â busnes cyfredol a materion arfaethedig. Gall cynghorau ysgol ddewis cyfarfod yn fwy rheolaidd neu gynnal cyfarfodydd ychwanegol yn ôl y galw.

[5] Nid yw 1 Tachwedd 2006 yn ofyniad ar gyfer ysgolion arbennig.

Aelodaeth Cynghorau Ysgol ac Ethol Aelodau

2.5 Mae'n **rhaid** i aelodau'r cyngor fod yn ddisgyblion a gofrestrwyd yn yr ysgol. **Rhaid** rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod o leiaf un disgybl cofrestredig o Flwyddyn 3 a phob grŵp oedran uwch yn cael eu hethol fel aelodau o gyngor yr ysgol.

2.6 Mae'n **rhaid** i'r corff llywodraethu a'r pennaeth wneud trefniadau i ddisgyblion cofrestredig gael eu hethol yn aelodau o gyngor yr ysgol drwy bleidlais gudd. **Ni ddylai'r** aelodau gan eu dewis gan staff yr ysgol, y pennaeth na'r corff llywodraethu[6]. Mae gan bob disgybl cofrestredig yr hawl i bleidleisio am ymgeisydd/ymgeiswyr yn eu grŵp blwyddyn.

2.7 Nid yw'r rheoliadau yn nodi sawl aelod a ddylai eistedd ar gyngor yr ysgol. Dylid sicrhau cydbwysedd rhwng nifer ymarferol a chynrychiolaeth gytbwys o ddisgyblion. Er enghraifft, dylai cynghorau ysgol geisio sicrhau cydbwysedd o ran rhyw ac adlewyrchu cyfansoddiad ethnig yr ysgol a phresenoldeb unrhyw ddisgyblion anabl. Ar ei lefel fwyaf sylfaenol, gellir cyflawni hyn drwy ethol un ferch ac un bachgen o bob grŵp blwyddyn. Mewn ysgol gynradd, byddai hynny'n golygu bod wyth o ddisgyblion yn aelodau o'r cyngor, ac mewn ysgol uwchradd byddai 14 o ddisgyblion yn aelodau o'r cyngor. Dylai ysgolion annog disgyblion o'r naill ryw a'r llall, disgyblion o gefndiroedd ethnig a disgyblion ag anableddau i sefyll mewn etholiad ar gyfer aelodau'r cyngor. Mewn ysgolion cynradd bach iawn, gyda 30 disgybl neu lai o bosibl, efallai y byddai'n fwy ymarferol i bob disgybl cofrestredig fod yn aelod o gyngor yr ysgol - ymagwedd a fyddai'n bodloni'r gofynion ar gyfer etholiadau.

2.8 Mae'n **rhaid** i gorff llywodraethu a phennaeth ysgol a gynhelir sydd â sylfaen adnoddau AAA wneud trefniadau i benodi o leiaf un disgybl cofrestredig o'r sylfaen adnoddau AAA hwnnw i gyngor yr ysgol. Mae hyn yn ofynnol waeth beth yw maint sylfaen adnoddau AAA yr ysgol, neu pa un a etholwyd unrhyw ddisgybl o'r sylfaen adnoddau AAA fel aelod o gyngor yr ysgol ar gyfer ei grŵp blwyddyn ef/hi. Mae unrhyw gynrychiolydd sylfaen adnoddau AAA ar gyngor yr ysgol yn ychwanegol at gynrychiolwyr grŵp blwyddyn ar gyngor yr ysgol. Mae angen i'r trefniadau ar gyfer penodi disgybl fel cynrychiolydd o'r sylfaen adnoddau AAA fod yn sensitif er mwyn osgoi pardduo tra'n annog cynrychiolaeth.

2.9 Yr ysgolion sy'n penderfynu sawl ymgeisydd a ddylai gael eu henwebu. Gall disgyblion enwebu eu hunain neu gael eu henwebu gan ddisgyblion eraill. Ni ddylai ymgeiswyr gael eu dewis na'u hargymell gan y staff, y pennaeth na'r corff llywodraethu.

2.10 Gellir cynnal etholiadau unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn. Nid oes unrhyw reoliad ynglŷn â pha mor aml y dylent gael eu cynnal, na pha mor hir y dylai disgyblion fod yn aelodau o'r cyngor. Fodd bynnag, awgrymir y byddai etholiad blynyddol yn sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi digon o amser i aelodau ddod yn gyfarwydd â'u rôl a chyfle i roi bywyd newydd i'r cyngor drwy ethol aelodau newydd. Gall aelodau cyfredol gael eu hailethol ond mae'n bwysig osgoi stasis a rhoi cyfle i gymaint o ddisgyblion â phosibl

[6] Mae trefniadau gwahanol yn gymwys i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig.

wasanaethu ar gynghorau ysgol. Efallai y bydd angen proses drosglwyddo ar ôl etholiadau. Gallai'r broses hon gael ei chynnal ar ffurf cyd-gyfarfod o'r hen gyngor a'r cyngor newydd, neu wahoddiad i nifer fach o gyn-aelodau fynychu cyfarfodydd y cyngor newydd am gyfnod o amser fel cynghorwyr, neu ddisgyblion sydd â diddordeb mewn dod yn aelodau yn cael eu cyfethol fel aelodau cysgodol.

2.11 Ceir canllawiau ychwanegol ar sefydlu cyngor ysgol o dan y botwm "Sut?" yn yr adran i oedolion ar wefan cynghorau ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae rhai ysgolion yn cynnal etholiadau sy'n efelychu etholiadau llywodraeth leol a chanolog. Cesglir enwebiadau ar gyfer ymgeiswyr, gyda rhestr ar wahân ar gyfer merched a bechgyn. Cynhelir pleidlais ar ddiwrnod yr etholiad, gyda slipiau pleidleisio, blychau pleidleisio, bythau pleidleisio, a phobl yn cael eu henwebu i gyfri'r pleidleisiau a gweithredu fel swyddog canlyniadau. Gall gwneud hyn greu ac ennyn diddordeb a dangos bod yr etholiad yn broses deg. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth o ddemocratiaeth a dinasyddiaeth.

Gall ysgolion uwchradd sy'n cynnal etholiadau ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ystyried cynnal pleidlais ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 yn ddiweddarach, efallai tuag at ddiwedd y tymor cyntaf, er mwyn iddynt gael y cyfle i ddod i adnabod eu grŵp blwyddyn newydd.

Rheoli Busnes Cynghorau Ysgol

2.12 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn **ofynnol** bod pob un o gyfarfodydd cyngor yr ysgol yn cael ei oruchwylio gan o leiaf un aelod o staff yr ysgol. Fel arall, nid yw'r rheoliadau yn nodi sut y dylai cyngor yr ysgol gael ei weithredu; dylai pob cyngor ysgol bennu ei drefniadau ei hun. Mae'n hanfodol bod busnes cynghorau ysgol yn cael ei reoli'n ddiffwdan er mwyn i'r cyngor fod yn effeithiol a chael ei werthfawrogi gan ddisgyblion, staff a'r corff llywodraethu.

2.13 Argymhellir bod gan gyngor ysgol gyfansoddiad neu gylch gorchwyl sy'n nodi sut y caiff cyngor yr ysgol ei weithredu. Gallai'r ddogfen hon nodi:

- nodau'r cyngor;
- strwythur y cyngor;
- y rheolau sylfaenol ar gyfer rheoli trafodaethau cyngor yr ysgol a chymryd cofnodion cyfarfodydd;
- dewis, os dymunir gwneud hynny, gadeirydd/ysgrifennydd/trysorydd o blith ei aelodau a phennu eu cyfrifoldebau;
- sut bydd cyngor yr ysgol yn cyfathrebu â'r pennaeth, y corff llywodraethu a'r disgyblion;
- trefniadau ar gyfer ethol aelodau i gyngor yr ysgol, eu tymor aelodaeth, y rhesymau dros derfynu aelodaeth yn gynnar,

a threfniadau ar gyfer dewis aelodau newydd yn lle aelodau sy'n tynnu eu haelodaeth yn ôl yn gynnar;

- trefniadau ar gyfer sefydlu is-bwyllgorau neu weithgorau i ystyried materion penodol;

- trefniadau ar gyfer penderfynu sut i ddefnyddio unrhyw arian a godir neu adnoddau a gesglir gan gyngor yr ysgol neu unrhyw arian neu adnoddau y mae gan y cyngor reolaeth drostynt.

Dylai pob un o aelodau cyngor yr ysgol feddu ar gopi o'r cyfansoddiad (neu'r cylch gorchwyl) a dylid sicrhau ei fod ar gael yn hawdd i bob disgybl cofrestredig. Dylid adolygu'r cyfansoddiad (neu'r cylch gorchwyl) yn rheolaidd. Mae gweithgareddau i helpu cynghorau ysgol i lunio cyfansoddiad (cylch gorchwyl) ar gael ar y wefan cynghorau ysgol.

2.14 Gall cynghorau ysgol gyfarfod gymaint o weithiau ag y mynnant ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion rheoliadol, sef isafswm o chwe chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol[7]. Dylai hyd y cyfarfodydd gael ei bennu yn ôl maint y busnes a'i natur ond mae'n bwysig nad yw cyfarfodydd yn rhy hir oherwydd gallai'r disgyblion golli diddordeb. Disgwylir i gyfarfodydd gael eu cynnal yn ystod y diwrnod ysgol arferol. Nid argymhellir amser cinio, amser egwyl na thu allan i oriau ysgol fel amseroedd addas ar gyfer cynnal cyfarfodydd o gyngor yr ysgol.

2.15 Mae gosod yr agenda a rheoli'r busnes yn hollbwysig i lwyddiant cyngor yr ysgol. Mae'n bwysig bod yr agendâu yn cynnwys eitemau y mae gan ddisgyblion ddiddordeb gwirioneddol ynddynt ac y gallant wneud cyfraniad ystyrlon tuag atynt. Fodd bynnag, dylai cyngor yr ysgol ei hun gytuno ar y materion i'w trafod, gan ystyried materion yr hoffai disgyblion yn yr ysgol weld y cyngor yn eu trafod. Dylid neilltuo amser i aelodau o gyngor yr ysgol ymgynghori'n llawn â'r boblogaeth ddisgyblion ehangach a rhoi adborth ar ganlyniad trafodaethau cyngor yr ysgol.

2.16 Mae angen rhoi trefniadau ar waith ar gyfer cymryd cofnodion. Gallai'r gwaith hwn gael ei rannu rhwng aelodau o'r cyngor neu gellir penodi un aelod i fod yn gyfrifol amdano, gyda chymorth staff yr ysgol. Gall staff gweinyddol yr ysgol gynorthwyo lle y bo modd iddynt wneud hynny.

2.17 Mae angen i'r cyngor benderfynu ar benodiad swyddogion y cyngor e.e. cadeirydd, dirprwy gadeirydd, trysorydd, ysgrifennydd ac ati a'r dull o'u penodi mewn cyfarfod cynnar. Gellir gwneud hyn drwy bleidlais gudd gan aelodau'r cyngor yn dilyn proses enwebu neu drwy godi dwylo mewn cyfarfod. Bydd angen i'r cyngor benderfynu hefyd ar dymor y penodiad - gallai hynny fod am y flwyddyn gyfan neu am gyfnod byrrach.

2.18 Yn enwedig mewn ysgolion cynradd, mae'n debygol y bydd angen i'r cadeirydd gael cymorth gan staff yr ysgol i gyflawni ei rôl hy cyflwyno eitemau ar yr agenda, egluro materion, sicrhau bod pawb yn deall, sicrhau bod pob aelod o'r cyngor yn cael y cyfle i siarad a chrynhoi trafodaethau a phenderfyniadau. Efallai y bydd angen llai o gymorth mewn ysgolion

[7] Nid oes angen i ysgolion arbennig fodloni'r gofyniad hwn.

uwchradd, ond gallai fod yn ddefnyddiol i roi cyfle i'r cadeirydd drafod materion gydag aelod o staff cyn cyfarfodydd.

2.19 Mae gweithgareddau hyfforddi ar gyfer aelodau o gyngor yr ysgol ar gael o dan y botwm "Sut?" yn yr adran i oedolion ar y wefan cynghorau ysgol.

Awgrymir y dylai aelodau o'r cyngor lunio cyfansoddiad (cylch gorchwyl) gydag arweiniad gan athro cyswllt cyngor yr ysgol, y pennaeth a/neu'r corff llywodraethu fel y bo angen. Efallai y bydd angen mwy o gymorth mewn ysgolion cynradd oherwydd bod y disgyblion yn llai profiadol ac aeddfed. Ni ddylai'r cyfansoddiad (cylch gorchwyl) fod yn ddogfen sefydlog. Dylid ei adolygu o bryd i'w gilydd, ar y cyd â'r broses o ethol cyngor newydd o bosibl.

Dylid sicrhau bod o leiaf un aelod o staff yr ysgol yn goruchwylio cyfarfodydd cyngor yr ysgol. Argymhellir y dylai'r aelod hwn fod yn aelod o'r uwch dîm rheoli. Mae presenoldeb person o'r fath yn symbolaidd (yn dangos bod y pennaeth a'r corff llywodraethu yn rhoi gwerth ar gyngor yr ysgol) ac yn ymarferol hefyd oherwydd bydd person o'r fath mewn sefyllfa dda i gyfathrebu'n effeithiol rhwng cyngor yr ysgol, y pennaeth a'r corff llywodraethu. Gallai oedolion eraill e.e. gweithwyr ieuenctid ac ati fynychu cyfarfodydd cyngor yr ysgol i drafod materion penodol.

Yn ôl pob tebyg, ni ddylai cyfarfodydd cyngor yr ysgol mewn ysgolion cynradd bara am fwy nag awr. Mewn ysgolion uwchradd, efallai bod awr a hanner yn realistig. Dylid amrywio amser y cyfarfodydd, a'r diwrnod o'r wythnos y cânt eu cynnal, er mwyn sicrhau nad yw aelodau yn colli'r un gwersi drwy gydol y flwyddyn ysgol.

Materion i'w Hystyried gan Gynghorau Ysgol

2.20 Nid yw'r rheoliadau yn nodi beth y dylai cynghorau ysgol ei ystyried. Fodd bynnag, ymhlith y materion a allai fod o ddiddordeb mae:

- gwelliannau i amgylchedd yr ysgol fel toiledau, sbwriel, y ffordd y mae'r ysgol wedi'i haddurno; yr iard chwarae, ailgylchu;
- datblygu adnoddau a chyfleusterau fel llyfrgell yr ysgol, chwaraeon, cerddoriaeth neu gyfleusterau drama;
- bwlio, mentora, lles disgyblion, trefniadau cymorth bugeiliol;
- y cyfnod pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd ac i addysg drydyddol, addysg bellach neu addysg uwch;
- bwyta'n iach a gweithgareddau hamdden iach;
- gwelliannau i'r broses ddysgu, ychwanegiadau neu newidiadau i'r amserlen neu'r cwricwlwm fel darparu pynciau newydd neu wahanol chwaraeon;
- bod yn rhan o'r broses o benodi staff yr ysgol;

- gweithgareddau amser cinio ac ar ôl ysgol;
- codi arian/defnyddio unrhyw gyllideb a ddyrennir;
- prydau ysgol;
- gwisg ysgol;
- presenoldeb disgyblion;
- cludiant ysgol/llwybrau diogel i'r ysgol;
- cod ymddygiad o ran cysylltiadau rhwng athrawon a disgyblion;
- penderfyniadau ynglŷn â rhedeg yr ysgol (polisïau ysgol, cod ymddygiad, ethos ac ati);
- cysylltiadau â'r gymuned leol/prosiectau cymunedol lleol e.e. prosiectau amgylcheddol;
- cyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol ar faterion sy'n achosi pryder i ddisgyblion e.e. cludiant.

Er mwyn delio â materion yn effeithiol, gall cynghorau ysgol sefydlu is-bwyllgorau neu weithgorau. Dylent hefyd sicrhau bod cydlyniad a phroses gyfathrebu effeithiol gydag unrhyw grwpiau neu bwyllgorau eraill yn yr ysgol fel pwyllgor ysgolion iach neu eco-bwyllgor.

Materion na Ddylid eu Hystyried gan Gynghorau Ysgol

2.21 Nid yw'r rheoliadau yn rhwystro'r cyngor ysgol rhag trafod unrhyw bwnc. Er hynny, argymhellir na ddylai cynghorau ysgol ystyried materion personol sy'n ymwneud â disgyblion unigol, aelodau unigol o staff na phob eraill.

Ymgysylltu â Disgyblion, y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu

2.22 Fforwm yw cyngor yr ysgol lle gall disgyblion drafod materion sy'n ymwneud â'u hysgol, eu haddysg, neu unrhyw faterion eraill sy'n achosi pryder iddynt neu sydd o ddiddordeb iddynt a mynegi eu barn am y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae cyngor yr ysgol yn ffordd gynrychioliadol a chynhwysol o dynnu sylw'r pennaeth a'r corff llywodraethu at faterion penodol. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn **ofynnol** i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ystyried unrhyw fater y cânt eu hysbysu ohono gan gyngor yr ysgol ac ymateb iddo.

2.23 Gall penaethiaid a chyrff llywodraethu ddefnyddio eu disgresiwn wrth benderfynu sut i ymateb i ohebiaeth gan gyngor yr ysgol, gan ystyried sut y caiff y mater ei godi (boed ar lafar neu'n ysgrifenedig) a natur y mater hwnnw. Fodd bynnag, disgwylir i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ymateb i bob gohebiaeth ysgrifenedig yn ysgrifenedig. Mae'n bwysig bod rhesymau yn cael eu rhoi am benderfyniadau a bod atebion yn amserol ac

nad ydynt yn ddiystyriol nac yn nawddoglyd. Dylai unrhyw faterion y caiff y corff llywodraethu ei hysbysu ohonynt dderbyn ymateb uniongyrchol gan y corff llywodraethu ac nid ymateb ail-law a roddir drwy'r pennaeth. Dylai'r ymateb i unrhyw ohebiaeth fod yn brydlon.

2.24 Mae cyngor yr ysgol hefyd yn gyfrwng i'r pennaeth a'r corff llywodraethu gael barn gynrychioliadol gan ddisgyblion. Dylai'r pennaeth a'r corff llywodraethu ystyried pa faterion yr hoffent gael barn y cyngor arnynt. Dylai materion fod o ddiddordeb gwirioneddol i'r disgyblion ac ni ddylid rhoi cymeradwyaeth yn awtomatig heb sicrhau fod y broses ymgynghori yn amserol ac yn ystyrlon.

2.25 Bydd llwyddiant cyngor ysgol yn dibynnu ar ba mor dda y bydd yn ymgysylltu â'r boblogaeth ddisgyblion ehangach ac yn casglu eu syniadau, eu barn a'u pryderon. Bydd angen rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion yn yr ysgol ystyried a thrafod yr hyn yr hoffent i gyngor yr ysgol ei ystyried a sicrhau ffordd effeithiol o gyfleu hynny i gyngor yr ysgol. Dylai'r broses hon roi'r cyfle i weld llif rheolaidd o syniadau ac awgrymiadau i'w hystyried gan gyngor yr ysgol a dylai'r mewnbwn fod yn rhan hollbwysig o gynnwys agendâu cyngor yr ysgol. Mae adborth gan y cyngor i ddisgyblion yn bwysig iawn er mwyn ennyn a chynnal diddordeb a brwdfrydedd. Felly, dylid rhoi digon o amser i roi adborth, fel bod pob disgybl yn ymwybodol o ganlyniadau materion a ystyriwyd gan gyngor yr ysgol.

2.26 Mae'n bwysig bod disgyblion yn gwybod pwy yw aelodau cyngor yr ysgol. Bydd trafodaeth yn y dosbarth, a fynychir gan aelod/aelodau o gyngor yr ysgol neu a arweinir ganddo/ganddynt yn helpu. Awgrymir hefyd y gall aelodau o gynghorau ysgol wisgo bathodynnau a gallai enwau a lluniau o aelodau'r cyngor gael eu harddangos mewn lle amlwg ble y gall y disgyblion eu gweld.

Mae llawer o ffyrdd y gall cyngor yr ysgol ymgysylltu â disgyblion, a rhestrir awgrymiadau isod. Gellid defnyddio cymysgedd o ymagweddau er mwyn ystyried anghenion pob un o'r disgyblion:

- amser penodedig yn ystod y cyfnod cofrestru, neu adegau eraill pan fydd y disgyblion yn ymgynnull, er mwyn iddynt ystyried, yn eu dosbarthiadau neu eu grwpiau blwyddyn, pa faterion yr hoffent i'r cyngor eu hystyried;
- ymweliadau gan aelodau o gyngor yr ysgol â dosbarthiadau neu grwpiau blwyddyn;
- gosod blychau awgrymiadau o amgylch yr ysgol;
- blwch e-bost a/neu dudalen we;
- holiaduron i ddisgyblion neu grwpiau o ddisgyblion;
- cylchlythyr rheolaidd i ddisgyblion gyda ffurflen ateb/sylwadau y gellir ei dychwelyd;
- hysbysfwrdd ar gyfer cyngor yr ysgol.

Adnoddau ar gyfer Cynghorau Ysgol

2.27 Gall y corff llywodraethu a'r pennaeth ddarparu adnoddau i gyngor yr ysgol. Mae gwneud hynny yn rhoi statws i gyngor yr ysgol ac yn gyfrwng i hwyluso'i waith. Gall yr adnoddau fod yn unrhyw beth y mae'r corff llywodraethu a'r pennaeth yn eu tybio sy'n addas ac felly gallant fod yn adnoddau ffisegol, ariannol neu gymorth staff ar gyfer gwaith ysgrifenyddol. Argymhellir bod y rheolau sylfaenol ar gyfer rheoli a defnyddio adnoddau yn cael eu nodi'n glir yng nghyfansoddiad neu gylch gorchwyl cyngor yr ysgol (gweler para 2.12). Yn unol â'r rheoliadau, rhaid i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ystyried unrhyw gais gan gyngor yr ysgol am adnoddau a rhoi ymateb i'r cais hwnnw.

Lle y bo'n bosibl, awgrymir y dylid neilltuo ystafell neu swyddfa benodol ar gyfer cyngor yr ysgol. Bydd y presenoldeb ffisegol hwn yn codi proffil y cyngor yn llygaid y disgyblion. Gallai hefyd gael ei staffio ar adegau penodol gan gynghorwyr ysgol fel bod disgyblion yn gallu galw heibio i wneud awgrymiadau neu ofyn cwestiynau.

Gallai cyngor yr ysgol ddefnyddio gwefan yr ysgol, gyda thudalen benodol a allai roi gwybodaeth, adborth a ffordd i'r disgyblion godi'r materion yr hoffent i gyngor yr ysgol eu hystyried.

Mewn rhai ysgolion, mae cyngor yr ysgol wedi cynnal digwyddiadau codi arian ac yna wedi penderfynu sut y dylai'r arian gael ei wario. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i'r disgyblion wneud pethau sy'n bwysig iddynt hwy ac yn eu grymuso. Mae digwyddiadau codi arian wedi'u cynnal hefyd ar y cyd â chymdeithasau rhieni-athrawon. Gall cyrff llywodraethu hefyd benderfynu rhoi arian i gyngor yr ysgol pan fyddant yn pennu cyllideb yr ysgol.

Bydd cynghorau ysgol yn creu rhywfaint o waith gweinyddol. I ddechrau, o leiaf, bydd angen i gynghorau ysgol gael cymorth staff profiadol i ymgymryd â hyn yn llwyddiannus. Dros amser, gall disgyblion hŷn ymgymryd â rhan o'r gwaith hwn neu elfennau sylweddol ohono.

Ysgolion Arbennig

2.28 Mae trefniadau gwahanol yn gymwys i ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig a gynhelir mewn cydnabyddiaeth am yr agweddau ymarferol ar sefydlu a chynnal cyngor ysgol cynrychioliadol. Nid yw Rheoliadau 3(2)(a), 4(2), 6 na 7 yn gymwys i ysgolion arbennig cymunedol nac ysgolion arbennig sefydledig[8]. Mae hyn yn golygu:

- Nid yw'n ofynnol i benaethiaid y cyfryw ysgolion sicrhau bod cyngor yr ysgol yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn na bod

[8] Mae trefniadau gwahanol yn gymwys i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig. Nid yw'n ofynnol i ysgolion arbennig fodloni Rheoliadau 3(2)(a) nifer y cyfarfodydd a dyddiad y cyfarfod cyntaf; 4(2) cynrychiolaeth grŵp blwyddyn; 6 etholiad drwy bleidlais gudd; a 7 disgybl-lywodraethwyr cyswllt.

y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal erbyn 1 Tachwedd 2006. Gall penaethiaid gynnal cyfarfodydd fel y mynnont, a gallant drefnu'r cyfarfod cyntaf ar ddyddiad ac amser o'u dewis.

- Nid yw'n ofynnol i'r corff llywodraethu na'r pennaeth wneud trefniadau i ethol o leiaf un disgybl o bob grŵp blwyddyn i gyngor yr ysgol.

- Nid yw'n ofynnol i'r corff llywodraethu na'r pennaeth wneud trefniadau i gynnal etholiadau drwy bleidlais gudd. Gall y corff llywodraethu a'r pennaeth ddewis neu argymell disgyblion i fod yn aelodau ond, wrth wneud hynny, fe'u hanogir i ystyried gwneuthuriad poblogaeth yr ysgol o ran rhyw, ethnigrwydd ac anabledd ac i gynnwys trawstoriad o oedrannau.

- Nid oes unrhyw ofyniad ar y pennaeth i sicrhau bod cyngor yr ysgol yn cael y cyfle i enwebu hyd at ddau ddisgybl o flynyddoedd 11 i 13 (yn gynhwysol) o blith y rhai sy'n aelodau o'r cyngor i fod yn ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt. Gall penaethiaid ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig sy'n cynnwys y grwpiau blwyddyn hyn ddewis ystyried trefniant o'r fath. Ond byddai angen i'r corff llywodraethu gytuno ymlaen llaw i dderbyn y disgyblion a enwebwyd gan nad yw'r rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu dderbyn disgybl-lywodraethwyr cyswllt yn gymwys i ysgolion arbennig cymunedol nac ysgolion arbennig sefydledig.

Disgybl-lywodraethwyr Cyswllt a Chysylltiadau rhwng Cyngor yr Ysgol a'r Corff Llywodraethu

2.29 Mae'n rhaid i'r pennaeth roi'r cyfle i gyngor yr ysgol enwebu un neu ddau o'i aelodau, o flynyddoedd 11, 12 neu 13, i fod yn ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt. Mae'n **rhaid** i'r corff llywodraethu dderbyn y disgyblion hyn a enwebir a'u penodi yn llywodraethwyr cyswllt i'r corff llywodraethu oni fydd rhesymau dros eu gwahardd o dan Atodlen 5 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

2.30 Diben disgybl-lywodraethwyr cyswllt yw rhoi llais i gyngor yr ysgol yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu a hysbysu cyngor yr ysgol am faterion a drafodwyd yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu. Mae ganddynt rôl gyswllt i'w chwarae o ran dod â disgyblion a'r corff llywodraethu at ei gilydd. Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu ystyried unrhyw fater y caiff ei hysbysu ohono gan gyngor yr ysgol ac mae'n rhaid i'r corff llywodraethu ymateb iddo. Pan fo cyngor yr ysgol yn anfon gohebiaeth ysgrifenedig i'r corff llywodraethu, disgwylir i'r corff llywodraethu ymateb yn ysgrifenedig.

2.31 Mae disgybl-lywodraethwyr cyswllt mewn sefyllfa dda i gyfrannu at ystyriaeth y corff llywodraethu o faterion fel:

- llunio ac adolygu polisïau sy'n effeithio ar ddisgyblion fel gwisg ysgol, polisïau gwrth-fwlio, addysg rhyw, cysylltiadau rhwng disgyblion ac athrawon, ymddygiad a phresenoldeb;

- datblygu mentrau a newidiadau ar draws yr ysgol gyfan fel rhaglenni ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang, ysgolion iach ac eco-ysgolion;
- datblygu a darparu cyfleusterau ysgol;
- llunio ac adolygu cynllun datblygu'r ysgol;
- rhoi mewnbwn i unrhyw gynllun ôl-arolygu;
- adolygu'r cwricwlwm a sut i wella addysgu a dysgu;
- cysylltiadau â'r gymuned leol a phrosiectau lleol.

2.32 Yn sgîl creu disgybl-lywodraethwyr cyswllt bu'n rhaid diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005[9]. Mae nifer o ofynion yn berthnasol i rôl disgybl-lywodraethwyr cyswllt:

- mae disgybl-lywodraethwyr cyswllt yn ychwanegol at aelodau eraill o'r corff llywodraethu;
- nid yw disgybl-lywodraethwyr cyswllt yn cyfrif tuag at y cworwm yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu na chyfarfodydd pwyllgor y corff llywodraethu;
- ni chaniateir i ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt fod yn glerc i'r corff llywodraethu na phwyllgor y corff llywodraethu;
- ni all disgybl-lywodraethwyr cyswllt bleidleisio yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu;
- gall disgybl-lywodraethwyr cyswllt ymgymryd â'r rôl am flwyddyn a gallant gael eu hailbenodi ar ôl hynny os ydynt yn dal i fod yn aelodau o gyngor yr ysgol;
- gall disgybl-lywodraethwyr cyswllt gael eu diswyddo gan y corff llywodraethu yn yr un modd ag y gellir diswyddo rhiant-lywodraethwyr a llywodraethwyr partneriaeth.

2.33 Gall disgybl-lywodraethwyr cyswllt fod yn aelodau o bwyllgorau anstatudol y corff llywodraethu a gallant bleidleisio yn y pwyllgorau hynny os yw'r corff llywodraethu yn rhoi hawl iddynt bleidleisio. Mae pwyllgorau statudol y corff llywodraethu yn cynnwys: y pwyllgor disgyblu/diswyddo staff a'r pwyllgor apeliadau disgyblu/diswyddo, y pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion a'r pwyllgor derbyniadau. Ni chaniateir i ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt fod yn aelodau o'r pwyllgorau statudol.

2.34 Efallai na fydd yn briodol i ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt glywed gwybodaeth neu fod yn rhan o drafodaethau yngŷn â rhai materion sensitif. Am y rheswm hwn, gall y corff llywodraethu wahardd disgybl-lywodraethwyr cyswllt rhag bod yn bresennol pan drafodir:

- materion staffio fel cyflog, disgyblu, rheoli perfformiad, cwynion a diswyddiadau;

[9] Rhoddir gwe-gyswllt yn **Atodiad 1**.

- derbyniadau;
- disgyblu disgyblion unigol;
- ethol, penodi neu ddiswyddo llywodraethwyr;
- cyllideb ac ymrwymiadau ariannol y corff llywodraethu;
- yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, y Weithred Ymddiriedolaeth.

2.35 Gall y corff llywodraethu hefyd, yn ôl ei ddisgresiwn, wahardd disgybl-lywodraethwyr cyswllt rhag bod yn bresennol pan drafodir unrhyw beth a ystyrir yn gyfrinachol ac yr ystyrir y dylid ei gadw yn gyfrinachol oherwydd ei natur. Ni fwriedir i'r pŵer dewisol hwn roi esgus i'r corff llywodraethu wahardd disgybl-lywodraethwyr cyswllt rhag bod yn bresennol mewn trafodaethau heb reswm da. Dylid tybio y bydd disgybl-lywodraethwyr cyswllt yn ymwneud â chyfran sylweddol o fusnes y corff llywodraethu

2.36 Yn ogystal â disgybl-aelodau cyswllt, caiff cyrff llywodraethu eu hannog i gytuno â chyngor yr ysgol ar ffyrdd o gydweithio. Gallai'r rhain gynnwys:

- cyngor yr ysgol yn gwahodd llywodraethwyr i fynychu cyfarfodydd y cyngor a/neu ofyn am gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr y corff llywodraethu yn rheolaidd er mwyn ystyried materion penodol;
- aelodau o gyngor yr ysgol ar wahân i'r disgybl-aelodau cyswllt yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu fel arsylwyr;
- y corff llywodraethu yn rhoi adroddiad ar gyngor yr ysgol, ei weithgareddau a'i gyflawniadau yn ei adroddiad blynyddol i rieni.

2.37 Caiff llawer o gyfarfodydd y corff llywodraethu eu cynnal ar ôl oriau ysgol ac mae angen i'r pennaeth sicrhau bod disgybl-lywodraethwyr cyswllt yn gallu teithio adref yn ddiogel. Dylai'r corff llywodraethu ystyried unrhyw gostau yr eir iddynt yn sgîl trefniadau o'r fath yng nghyllideb yr ysgol.

Mae angen i gyrff llywodraethu ystyried y ffordd y trefnir busnes er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu rheoli'n effeithlon a bod disgybl-lywodraethwyr cyswllt yn cael digon o gyfle i gymryd rhan yn effeithiol. Yng ngoleuni'r ffaith y gallai disgybl-lywodraethwyr cyswllt gael eu gwahardd rhag cymryd rhan mewn rhai mathau o fusnes, argymhellir y dylid trefnu agendâu fel bod yr eitemau wedi'u dosbarthu mewn grwpiau. Gellid ystyried busnes sensitif ar ddechrau neu ddiwedd cyfarfod gan drefnu presenoldeb disgybl-lywodraethwyr cyswllt yn unol â hynny.

ADRAN 3: DATBLYGIADAU PELLACH

Gwefan Cynghorau Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu gwefan benodol ar gyfer cynghorau ysgol a fydd ar gael o 1 Medi 2006. Mae'r wefan yn ddwyieithog a bwriedir iddi gael ei defnyddio gan staff ysgol, disgyblion a llywodraethwyr. Mae'n cynnwys y canlynol:

- gwybodaeth gefndirol ynglŷn ag ymagwedd Llywodraeth y Cynulliad tuag at gyfranogiad disgyblion;
- gwybodaeth a chyngor ychwanegol ar sut i sefydlu, datblygu a chynnal cyngor ysgol;
- gweithgareddau hyfforddi ar gyfer staff a disgyblion i'w cynorthwyo i sicrhau bod cynghorau ysgol yn effeithiol;
- adrannau penodedig ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig;
- ffynonellau help a chefnogaeth;
- cwestiynau cyffredin;
- bwrdd trafod;
- astudiaethau achos sy'n nodi arfer da.

Bydd y wefan yn adnodd deinamig a hyblyg a fydd yn adlewyrchu anghenion ysgolion ac yn galluogi staff a disgyblion yng Nghymru i rannu arfer da. Bydd y wefan yn datblygu yn ôl yr anghenion a'r amgylchiadau.

Cyfeiriad y wefan yw:

www.cynghorauysgolcymru.org.uk

neu yn Saesneg:

www.schoolcouncilswales.org.uk

ATODIAD 1

Gwe-gysylltiadau

Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005, Offeryn Statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2005 Rhif 3200 (Cy.236), ar gael yn:

http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2005/20053200e.htm

Mae'r rheoliadau wedi diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, Offeryn Statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2005 Rhif 2914 (Cy.211) er mwyn darparu ar gyfer disgybl-lywodraethwyr cyswllt. Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir ar gael yn:

http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2005/wsi_20052914_mi.pdf

Mae Deddf Addysg 2002 ar gael yn:

http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2002/20020032.htm